Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 17 Mai, 2024

**PWNC**

Eitem 5: SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF Y BWRDD UCHELGAIS AR GYFER 2023/24

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd a derbyn:**

1. **Adroddiad alldro refeniw y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1), sy'n cynnwys defnyddio £561,454 o Grant Bargen Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.**
2. **Sefyllfa cronfeydd y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**
3. **Adolygiad Cyfalaf Diwedd Blwyddyn ar 31 Mawrth 2024 (Atodiad 3).**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Hysbysu'r Bwrdd Uchelgais am ei sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf 2023/24.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 17 Mai, 2024

**PWNC**

Eitem 6: CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 4

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**

**Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I gyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 17 Mai, 2024

**PWNC**

Eitem 8: CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – ACHOS BUSNES LLAWN

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.**

**Awdurdodwyd Cyfarwyddwr y Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno a mynd i gytundeb ariannu gyda Jones Brothers Ruthin Development Holdings Ltd i gyflawni'r Prosiect.**

**Nodwyd bydd y cytundeb ariannu yn cael ei wneud ar ôl cwblhau'r camau ym mharagraff 7.7 yn foddhaol mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.**

**Mynegwyd diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y prosiect hwn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 2 Chwefror 2024. Cynhaliodd y prosiect Adolygiad Parth 3 ym mis Ebrill 2024 ac fe dderbyniodd radd Ambr gan y tîm adolygu gyda 9 o'r argymhellion. Mae'r argymhellion hyn wrthi'n cael eu hadolygu gan Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros, gyda'r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu rhwng y partïon.

Jones Brothers Ruthin Development Holdings Ltd fydd derbynwyr y grant a byddant yn comisiynu Jones Brothers Ruthin Civil Engineering Limited i ymgymryd â'r gwaith Gwedd 1 gan ddefnyddio'r isgontractwyr cymeradwy sydd ganddynt pan fo'r angen. Mae'r cwmni nawr yn

cyhoeddi Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd er mwyn gwneud penderfyniad Buddsoddi terfynol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.